

# Polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn y Coleg

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb : 22/03/2023

Asesiad o Effaith ar y Gymraeg : 22/03/2023

Cymerthaeme



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

Diben ac Amcanion

1. Cwmpas
2. Darparu Gwasanaethau
3. Gweithrediadau Mewnol
4. Llunio Polisïau
5. Monitro ac Adrodd
6. Delio â Materion Ychwanegol



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

## Diben ac Amcanion

Mae Coleg Gwent yn gwbl gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Nod y polisi hwn yw cynnig canllawiau i'r holl staff ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y Coleg, gan sicrhau yr un pryd y bydd y Coleg yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi sut y disgwylir i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn eu busnes o ddydd i ddydd ac wrth ddarparu eu gwasanaethau.

Mae gweithredu'r polisi hwn yn cyd -fynd â gofynion Safon 105 Safonau'r Gymraeg. Gŵyr y Coleg fod ganddo rôl allweddol o ran targed Llywodraeth Cymru, sef creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu faint o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol.



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

2.5.1 Mae'r Coleg yn cyhoeddi ei holl ddeunyddiau corfforaethol yn ddwyieithog.

2.5.2 Mae hunaniaeth gorfforaethol y Coleg yn ddwyieithog.

2.5.3 Mae'r Coleg yn sicrhau y bydd fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ei holl ddeunyddiau corfforaethol, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffurflenni, taflenni, posteri, llyfrynnau ac ati.

2.5.4 Pan fo angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer dogfennau/cyhoeddiadau, bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd â'i gilydd. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un safon â'i gilydd a byddant yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. M ewn amgylchiadau o'r fath, bydd pob fersiwn yn cynnwys datganiad yn esbonio bod y ddogfen ar gael hefyd yn yr iaith arall.

2.5.5 Mae templedi'r Coleg ar gael yn ddwyieithog, gan sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

2.5.6 Caiff staff y Coleg a rhanddeiliaid allanol arweiniad ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog a fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân.

2.5.7 Mae holl ffurflenni'r Coleg ar gael yn ddwyieithog.

2.5.8 Yn achos yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig ac electronig sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd, cânt eu cyhoeddi'n ddwyieithog, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Unwaith eto, bydd y Coleg yn sicrhau bod fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn deunyddiau o'r fath.

2.5.9 Cyhoeddir holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd y Coleg yn ddwyieithog, a chânt eu cynllunio mewn modd a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

2.5.10 Mae holl ddeunyddiau arddangos y Coleg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ddwyieithog, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

2.5.11 Mae holl hysbysiadau a hysbysebion cyhoeddus y Coleg yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd.

2.5.12 Caiff hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol eu postio yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ddwyieithog, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

2.6 Darparu Gwasanaethau: Arwyddion

2.6.1 Pan fo'r coleg yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwyddion (yn cynnwys arwyddion dros dro), bydd unrhyw destun ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn y Gymraeg, ac os caiff yr un testun ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd y testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

2.6.2 Pan fo'r coleg yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwyddion (yn cynnwys arwyddion dros dro), a phan fo'r arwyddion hynny'n cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod fel ei fod yn fwy tebygol o gael ei ddarll en yn gyntaf.

2.6.3 Bydd y coleg yn sicrhau bod y testun Cymraeg a nodir ar arwyddion yn gywir o ran ei ystyr a'i fynegiant.



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

3. Gweithrediadau Mewnol

3.1 Gweithrediadau Mewnol: Staffio a Recriwtio

3.1.1 Mae’r Coleg yn cynnal archwiliad o siaradwyr Cymraeg ym mhob un o’r meysydd Addysgu a Dysgu a Chymorth Busnes, ac mae’n tynnu sylw at feysydd lle nodir bod cael staff â sgiliau Cymraeg naill ai’n “Hanfodol” neu’n “Ddymunol” mewn perthynas â natur y swydd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

3.1.2



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

Recriwtio a chyfweld
Rheoli perfformiad
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu
Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd a chyfweliadau

3.2.7 Pan ddefnyddir darparwr allanol i ddarparu hyfforddiant mewnol, bydd y Coleg yn ystyried pa mor bwysig a pherthnasol yw darparu'r hyfforddiant yn y Gymraeg (os yw'r rhesymau'n wahanol i'r rhai a restrir uchod). Fel rhan o'r broses dendro, ac yn unol â gofynion Safonau 80 -84, bydd y Coleg yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â gallu trydydd parti i ddarparu gwasanaethau hyfforddi yn y Gymraeg, a gwneir pob ymdrech i gynnal cwrs cyfatebol yn y Gymraeg. Pan fo angen, bydd y darparwr allanol yn gyfrifol am drefnu a thalu am wasanaeth cyfieithu, ynghyd â darparu hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg pan fo angen.

3.2.8 Bydd y coleg yn darparu adnoddau/canllawiau hyfforddi i'r staff ar bob lefel er mwyn eu cynorthwyo i roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn llwyddiannus.

3.3 Gweithrediadau Mewnol: Cyfieithu

3.3.1 Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol y Coleg ar gael i'r holl staff, a rhoddir cyngor iddynt ynghylch sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn briodol.

3.4 Gweithrediadau Mewnol: Delio â chwynion

3.4.1 Mae'r coleg yn caniatáu i bob aelod o staff – (a) gwneud cwynion yn y Gymraeg, a (b) bydd y coleg yn ymateb yn y Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdano ef neu amdani hi.

3.4.2 Bydd unrhyw ddogfen sy'n nodi gweithdrefnau'r coleg ar gyfer gwneud cwynion yn d atgan y gall pob aelod o staff wneud y canlynol –

(a) gwneud cwyn yn y Gymraeg,

(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef neu amdani hi yn y Gymraeg;

a bydd y coleg yn hysbysu pob aelod o staff ynglŷn â'r hawl honno

Bydd unrhyw gŵyn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn 3.4.

## 4. Llunio Polisïau

4.1 Llunio Polisïau: Polisïau a Mentrau Newydd

4.1.1 Mae'r Coleg yn monitro polisïau a mentrau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd -fynd â'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg, a'u bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

4.1.2 Craffir ar bolisïau a mentrau newydd fel rhan o'r broses Asesu Effaith, er mwyn asesu eu



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

4.1.4 Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, bydd y Coleg yn ymdrechu i hyrwyddo, annog a datblygu' r iaith Gymraeg a'i hethos.

4.2 Llunio Polisïau: Tendrau

4.2.1 Pan fydd y Coleg yn gwahodd tendrau ar gyfer contractau penodol, caiff ystyriaethau'n ymwneud â thueddiadau a gofynion ieithyddol eu cynnwys a'u cyfleu ym manyleb y tendr; bydd y gwaith o fonitro is-



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx

5.7 Bydd y Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd yn llunio Adroddiad Blynyddol ar weithgarwch a pherfformiad y Coleg mewn perthynas â'r Hysbysiad Cydymffurfio. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar wefan y Coleg ac ar fewnrwyd y staff.

## 6. Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg

6.1 Cyfrifoldeb y Tîm AD, gyda chymorth Tîm Safonau'r Gymraeg a'r Tîm Marchnata, yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ymhlith staff yn y Coleg.

6(i)-5.7 (o)-8.8 E/n7 506.65(y



This copy may be out of date if printed. https://gwent.sharepoint.com/sites/MyEmployment/SitePages/HR-Policies.aspx